



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Ymgynghoriad ar y canllawiau statudol diwygiedig

18 Ionawr 2021

Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 – Ymgynghoriad ar y Canllawiau Statudol diwygiedig

1. Cyflwyniad

2. Trosolwg o ymatebion

3. Ymatebion i'r cwestiynau penodol yn yr Ymgynghoriad

- **C1:** Ydych chi'n meddwl bod y diffiniadau o wardiau yn ddigon clir a hawdd i'w deall?
- **C2:** Ydy'r rhestr o wardiau wedi'u heithrio ym mharagraff 30 y canllawiau statudol yn briodol?
- **C3:** Oes gennych chi unrhyw sylwadau am y diwygiadau cyffredinol a wnaed i'r canllawiau statudol?
- **C4:** Oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol?
- **C5 a C6:** Hoffem glywed eich barn ar effeithiau'r canllawiau ar y Gymraeg - yn benodol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
- **C7:** Hoffem gael eich barn ar effaith y canllawiau statudol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig – yn benodol, ydych chi'n credu y bydd yr effeithiau hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol?

4. Y camau nesaf

1. Cyflwyniad

- 1.1 Cafodd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 gydsyniad brenhinol ym mis Mawrth 2016, ac roedd ganddi ddull gweithredu graddol mewn dwy ran.
- 1.2 Mae'r ddyletswydd gyntaf o dan Adran 25A yn nodi'r cyfrifoldeb cyffredinol i fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG sicrhau bod *digon o nyrsys i ofalu am gleifion mewn ffordd sensitif*, ac mae'n berthnasol i unrhyw leoliad lle darperir gofal nyrsio a/neu wasanaethau a gomisiynir. Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Ebrill 2017.
- 1.3 Mae'r ail ddyletswydd o dan Adran 25B (a'i dyletswyddau cysylltiedig o dan adrannau 25C-E) yn ei gwneud hi'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol Cymru ddefnyddio methodoleg ragnodedig i gyfrifo a chynnal y lefel staff nyrsio ar gyfer wardiau meddygol aciwt i oedolion sy'n gleifion mewnol a wardiau llawfeddygol aciwt i oedolion sy'n gleifion mewnol. Daeth y ddyletswydd hon i rym ym mis Ebrill 2018.
- 1.4 Ar adeg pasio Deddf 2016, sefydlwyd cyfiawnhad rhesymol cyfreithiol dros gymhwyso'r ail ddyletswydd i wardiau meddygol a wardiau llawfeddygol aciwt i oedolion sy'n gleifion mewnol yn unig. Yn syml, y wardiau hynny oedd yr unig lefydd lle'r oedd sail dystiolaeth wedi datblygu digon i ategu'r "adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth" y mae Deddf 2016 yn ei nodi fel rheidrwydd i gyfrifo lefel staff nyrsio.
- 1.5 Mae *Rheoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021* yn ceisio ymestyn cwrmpas adran 25B o Ddeddf 2016 i gynnwys wardiau cleifion mewnol pediatriig. Mae hyn yn dilyn 3 blynedd o ddatblygu adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y lleoliad hwnnw sydd bellach yn cael ei ystyried yn addas i'w ddefnyddio.
- 1.6 Cynhaliwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y canllawiau statudol ar gyfer Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 - a ddiwygiwyd i gynnwys lleoliadau cleifion mewnol pediatriig o dan adran 25B - dros gyfnod o 13 wythnos rhwng 16 Medi a 16 Rhagfyr 2020. Gohiriwyd hyn o'r cyfnod ymgynghori a gynlluniwyd yn wreiddiol yn haf 2020 oherwydd pandemig Covid-19. Denodd yr ymgynghoriad ddiddordeb gan bob math o wahanol randdeiliaid. Cyhoeddwyd y dogfennau ymgynghori a'r canllawiau diwygiedig yn ddwyieithog.
- 1.7 Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn am y canllawiau statudol diwygiedig, sy'n ofynnol o dan adran 25D o Ddeddf GIG (Cymru) 2006. Bwriedir i'r diwygiadau a wneir i'r canllawiau gefnogi gweithredu adran 25B ac adran 25C o'r Ddeddf honno mewn wardiau cleifion mewnol pediatriig.
- 1.8 Mae'r diwygiadau hynny'n dod o dan 3 phrif bennawd:
 - ychwanegu diffiniad o wardiau cleifion mewnol pediatriig ac addasiadau angenrheidiol i'r diffiniadau gwreiddiol o wardiau meddygol i oedolion a wardiau llawfeddygol aciwt i oedolion;
 - ychwanegu rhestr o'r wardiau a fyddai'n cael eu heithrio o dan y diffiniad o wardiau cleifion mewnol pediatriig; a

- mân welliannau ychwanegol i eiriad gwreiddiol y canllawiau statudol.

2. Trosolwg o ymatebion

2.1 Cafwyd cyfanswm o 15 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid. Derbyniwyd naw o'r ymatebion hyn gan ddefnyddio'r offeryn holiadur ar-lein. Cafwyd pum ymateb drwy e-bost ar ôl llenwi templed y ffurflen. Derbyniwyd un ymateb ar ffurf llythyr a oedd yn trafod themâu'r ymgynghoriad heb ymateb i'r cwestiynau'n uniongyrchol.

2.2 Cafwyd saith ymateb gan fyrrddau iechyd, ymddiriedolaethau neu gyrff cysylltiedig, sef:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (CTMUHB)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (HDUHB)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (SBUHB)
- Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW)
- Gweithgor Nyrsio Pediatrig Cymru Gyfan
- Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan

Cafwyd chwech ymateb gan sefydliadau â buddiant yn y gwasanaeth iechyd, sef:

- Comisiynydd Plant Cymru
- Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH)
- Bwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned Cymru (CICau)
- Fforwm Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Cafwyd dau ymateb gan aelodau'r cyhoedd, ac roedd un ohonynt yn ddienw.

2.3 Gwahoddwyd yr ymatebwyr i roi adborth ar bob adran o'r canllawiau. Dim ond ar adrannau penodol o ddiddordeb y gwnaeth amryw o ymatebwyr sylwadau, sy'n golygu bod llai na 15 o ymatebion i nifer o'r cwestiynau.

2.4 Ceir yr ymatebion llawn yn Atodiad A i'r ddogfen hon (gyda manylion personol wedi'u golygu lle nododd ymatebwyr yn glir nad oeddent am i'r manylion hynny gael eu cyhoeddi).

3. Ymatebion i'r cwestiynau penodol yn yr Ymgynghoriad

C1 Diffiniadau o wardiau

- 3.1. Gofynnwyd i ymatebwyr wneud sylwadau ar ba mor glir a hawdd eu deall oedd y diffiniadau diwygiedig o wardiau meddygol i oedolion, wardiau llawfeddygol i oedolion a wardiau cleifion mewnol pediatrig. Cawsant gyfle hefyd i wneud awgrymiadau ynghylch unrhyw ffyrdd yr oeddent yn teimlo y gellid gwneud y diffiniadau'n fwy clir.
- 3.2. Yn gyffredinol, teimlwyd bod y diffiniadau wedi'u geirio'n glir ac yn hawdd eu deall: Cadarnhaodd 8 ymatebydd hyn yn benodol; awgrymodd un ymatebydd o'r 15 nad oedd y diffiniadau'n glir; ac ni atebodd y 6 arall y cwestiwn y naill ffordd na'r llall.
- 3.3. Er gwaethaf y cytundeb cyffredinol o eglurder yn y diffiniadau, gwnaed sawl awgrym ar gyfer addasiadau, yn aml gan sawl ymatebydd gwahanol. Mae'r rhain wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn thematig isod.
- 3.4. Nododd pum ymatebydd fod y geiriad "...*cleifion hyd at eu pen-blwydd yn 18 oed*" yn fwy clir ac yn haws ei ddeall na "*0 – 17 oed*".
- 3.5. Nododd pum ymatebydd gymhlethdod trosglwyddo o ofal pediatrig i ofal oedolion yn y gwasanaeth iechyd, a bod amrywiaeth mewn ymarfer rhwng byrddau iechyd, yn enwedig i'r rhai 16 a 17 oed sy'n aml yn cael eu hystyried yn "ardal lwyd" rhwng y ddau. Ymatebodd yr RCN eu bod yn croesawu'r diffiniadau diwygiedig gan eu bod yn adlewyrchu realiti hylifedd y sefyllfa gymhleth a ddisgrifiwyd uchod gan y 5 ymatebydd arall.
- 3.6. Nododd chwe ymatebydd fod angen mwy na barn broffesiynol yn unig wrth benderfynu ar y lleoliad mwyaf priodol yn glinigol (ward bediatrig neu ward i oedolion) ar gyfer claf penodol. Dyma'r ffactorau eraill yr awgrymwyd y dylid eu hystyried: y broses asesu risg safonedig sydd eisoes ar waith; hawl y plentyn i gael mynegi ei farn am ei lwybr gofal; a mewnbwn gwarcheidwad cyfreithiol.
- 3.7. Dywedodd tri ymatebydd y dylai "dan oruchwyliaeth meddyg neu lawfeddyg ymgynghorol" ym mharagraff 30 gael ei ddisodli gan rywbeth mwy penodol megis "*pediatregydd ymgynghorol*" neu "*ymgyngorydd Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i lechyd/nyrs neu feddygol*".
- 3.8. Dywedodd un ymatebydd (aelod o'r cyhoedd) y dylai'r canllawiau statudol fod ar gael mewn fformat "Hawdd ei Ddeall".

- 3.9. Defnyddiodd un ymatebydd (aelod o'r cyhoedd) yr adran hon i nodi pryderon y byddai ymestyn adran 25B yn cael ei "...ddefnyddio fel esgus i..." gau unedau Triniaethau Dydd Pediatrig yn Sir Benfro.
- 3.10. Gofynnodd dau ymatebydd am eglurder ar adegau pan fyddai claf o dan 18 oed yn derbyn gofal mewn lleoliad nad yw'n lleoliad pediatrig – yr enghraifft a roddwyd oedd ward mamolaeth i oedolion.

C2 Wardiau wedi'u heithrio

- 3.11. Yna gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent o'r farn bod y rhestr o wardiau wedi'u heithrio o dan baragraff 30 yn briodol ac, o gael y cyfle, a fyddent yn awgrymu unrhyw newidiadau sy'n angenrheidiol yn eu barn nhw.
- 3.12. Yn gyffredinol, teimlwyd bod y rhestr o wardiau wedi'u heithrio yn briodol: Cadarnhaodd 9 ymatebydd hyn yn benodol; awgrymodd dau ymatebydd o'r 15 nad oedd y rhestr yn briodol; ac ni atebodd y 4 arall y cwestiwn y naill ffordd na'r llall. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod y rhestr o wardiau wedi'u heithrio yn briodol ar yr amod y glynir wrth baragraff 27 o'r canllawiau statudol hefyd. Dyma'r paragraff sy'n egluro'r egwyddor gyffredinol y dylai'r diffiniadau o wardiau gael eu cymhwyso yn unol â "phrif ddiben y ward".
- 3.13. Nododd pedwar ymatebydd, er bod y rhestr o wardiau wedi'u heithrio yn briodol, y gallai fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch cymhwyso'r rhestr yn ymarferol oherwydd bod rhai wardiau cleifion mewnol pediatrig hefyd yn cynnwys rhai gwelyau unedau asesu clinigol neu lawdriniaeth ddydd sy'n cael eu staffio gan un tîm. Fodd bynnag, o'r pedwar hynny, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd y byddai eglurhad am baragraff 27 ynghylch "prif ddiben y ward" o gymorth i fyrddau iechyd wrth wneud penderfyniadau ar y mater. Ar y pwynt hwnnw, dywedodd Hywel Dda hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol ailadrodd pwynt "prif ddiben y ward" o fewn y paragraffau ar y diffiniadau a'r rhestr o wardiau wedi'u heithrio.
- 3.14. Nododd tri ymatebydd y dylid cynnwys yr unedau plastig a llosgiadau arbenigol rhanbarthol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn y rhestr o wardiau wedi'u heithrio.
- 3.15. Nododd un ymatebydd (Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan) fod oncoleg arbenigol wedi'i gynnwys yn y rhestr o wardiau wedi'u heithrio ar gyfer pediatreg, ond nid yn y rhestrau presennol o wardiau wedi'u heithrio a oedd yn cyd-fynd â'r diffiniadau o wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion.
- 3.16. Dywedodd Coleg Brenhinol y Nyrsys yn eu hymateb, er bod dyletswydd adran 25A gyffredinol y Ddeddf (y ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddarparu digon o nyrsys ym mhob lleoliad lle mae gofal nyrsio yn cael ei ddarparu neu ei gomisiynu) wedi'i nodi ym mharagraff 18, y gellid ei hailadrodd yn y rhestr o

wardiau wedi'u heithrio i atgoffa pobl, er nad yw'n dod o dan nawdd adran 25B, fod dyletswydd staffio o hyd ar yr holl feysydd a restrir.

3.17. Defnyddiodd dau ymatebydd yr adran hon i ddweud y dylid cymhwyso adran 25B o'r Ddeddf i bob maes gofal. Nododd un o'r ddau nad oedd yn ddigon clir a oedd y wardiau a restrwyd wedi'u heithrio oherwydd diffyg adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a nodwyd gan y Ddeddf eu bod yn ofynnol ar gyfer cymhwyso adran 25B.

3.18. Defnyddiodd un ymatebydd (aelod o'r cyhoedd) yr adran hon i godi pryderon unwaith eto am israddio hanesyddol yr Uned Gofal Triniaethau Dydd Pediatrig yn Ysbyty Llwynhelyg, gan ddweud y dylid ei hadfer fel ward cleifion mewnol pediatrig 24 awr.

C3 Diwygiadau eraill i'r canllawiau gwreiddiol

3.19. Rhoddodd cwestiwn 3 gyfle i ymatebwyr wneud unrhyw sylwadau cyffredinol ar y diwygiadau a wnaed i'r canllawiau statudol. Dim ond llond llaw o sylwadau a gafwyd, yn ymwneud yn bennaf ag eglurder oherwydd strwythur brawddegau neu faterion technegol.

3.20. Nododd pedwar ymatebydd fod amwysedd ynghylch a yw'r lefel staff nyrsio yn cynnwys nyrsys cofrestredig yn unig, neu hefyd staff ychwanegol o dan oruchwyliaeth nyrsys cofrestredig. Mae paragraff 4 o'r canllawiau statudol yn nodi bod yr olaf yn wir, gan ddweud: "*Mae nifer y nyrsys yn golygu nifer y nyrsys cofrestredig (sef y rhai sydd â chofrestriad gweithredol o dan isadran 1 neu 2 ar gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth). Wrth gyfrifo lefel y staff nyrsio, gellir ystyried dyletswyddau nyrsio yr ymgymmerir â nhw o dan oruchwyliaeth nyrs gofrestrdig neu ddyletswyddau nyrsio sy'n cael eu dirprwyo i berson arall gan nyrs gofrestrdig.*" Fodd bynnag, mae paragraff 9 wedyn yn mynd ymlaen i ailadrodd y llinell yn ddiangen: "Mae nifer y nyrsys yn golygu nifer y nyrsys cofrestredig" heb yr eglurhad cysylltiedig o baragraff 4 y teimlwyd nad oedd yn ddigon cyson.

3.21. Tynnodd dau ymatebydd sylw at frawddeg ym mharagraff 12 sy'n sôn am wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion ond nad yw'n cyfeirio at wardiau cleifion mewnol pediatrig.

3.22. Nododd dau ymatebydd y dylai'r adran ar hysbysu cleifion o'r lefelau staff nyrsio nodi'n benodol y dylai byrddau iechyd roi gwybod i gleifion am y lefel staff nyrsio arfaethedig a'r lefel wirioneddol o staff nyrsio a ddefnyddir.

3.23. Nododd un ymatebydd (CTMUHB) ei bod yn "*drueni*" na all y rheoliadau ddod i rym yn gynharach na mis Hydref 2021.

3.24. Defnyddiodd un ymatebydd (RCPCH) yr adran hon i ailadrodd sylwadau am gymhlethdod gweithredol ynghylch lle mae plant 15-17 oed yn cael eu trin a'r

amrywiad mewn ymarfer ar draws ardaloedd bwrdd iechyd. Maent yn nodi y bydd angen i'r gwaith o weithredu'r canllawiau statudol gael ei "roi ar waith yn ofalus".

3.25. Dywedodd un ymatebydd (fforwm Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan) y dylai paragraff 44 (a oedd yn trafod dangosyddion ansawdd sy'n sensitif i nyrsys) gynnwys cyfeiriad at ddiogelu ac amddiffyn plant, yn ogystal â "*phresenoldeb rhiant*".

3.26. Dywedodd Coleg Brenhinol y Nyrsys fod rhaid i uwch nyrs blant gofrestredig fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch lefelau staff nyrsio mewn wardiau cleifion mewnol pediatrig.

3.27. Defnyddiodd un ymatebydd (aelod o'r cyhoedd) yr adran hon i rannu mwy o bryderon ynghylch sut "*y byddai'r Ddeddf yn cael ei defnyddio i gyflymu canoli gwasanaethau mewn ysbytai a ffefrir*", sef uned gofal triniaethau dydd pediatrig Llwynhelyg.

C4 Materion cysylltiedig a awgrymwyd gan ymatebwyr

3.28. Rhoddodd cwestiwn 4 gyfle i ymatebwyr godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydynt yn cael sylw yng nghwestiynau eraill yr ymgynghoriad. Dywedodd 4 ymatebydd nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach. O'r 11 ymatebydd arall, roedd llai o ailadrodd sylwadau fel yn y cwestiynau blaenorol, a mwy o arsylwadau gan ymatebwyr unigol.

3.29. Soniodd pum ymatebydd am yr angen i wahaniaethu rhwng adnodd cynllunio'r gweithlu *Lefelau Gofal Cymru* i oedolion a'r *Lefelau Gofal Cymru* pediatrig sydd newydd eu cyflwyno. At hynny, gofynnodd dau o'r pum ymatebydd hynny a ddylai cyfeiriadau at *adnodd cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar dystiolaeth* gael eu disodli gan gyfeiriad penodol at *Lefelau Gofal Cymru*.

3.30. Nododd pedwar ymatebydd fod y dangosyddion ansawdd oedolion wedi'u henwi'n benodol ym mharagraff 44 ond nad yw'r rhai sy'n benodol i bediatreg wedi'u henwi o gwbl, sydd efallai'n awgrymu nad yw'r eglurhad ym mharagraff 45 (y gall y person dynodedig ystyried *unrhyw* ddangosydd arall sy'n sensitif i'r lefel staff nyrsio sy'n briodol yn eu barn nhw) yn ddigon clir ar ei ben ei hun.

3.31. Defnyddiodd tri ymatebydd yr adran hon i dynnu sylw at yr un hepgoriad ym mhwynt 3.21 uchod.

3.32. Dywedodd tri ymatebydd nad yw'r cynnydd o 26.9% a orfodwyd gan y ddeddfwriaeth yn cynnwys gwasanaeth mamolaeth.

3.33. Tynnodd dau ymatebydd sylw at yr anghysondeb rhwng “*lles claf sy'n arbennig o sensitif i'r gofal a roddir gan nyrs*” yn erbyn y “*dangosyddion ansawdd*” mwy cryno a ddefnyddir i gynrychioli'r un peth yn y graffig triongli.

3.34. Holodd dau ymatebydd a ddylid defnyddio'r gair “*supervisory*” yn lle “*supernumerary*” ym mharagraff 11 y fersiwn Saesneg.

3.35. Nododd dau ymatebydd nad oes cyfeiriad penodol at safonau a chanllawiau presennol lefelau staff nyrsio yn ein canllawiau statudol, sy'n awgrymu efallai nad yw'r eglurhad ym mharagraff 39 (“*Dylai barn broffesiynol y person dynodedig gael ei llywio gan unrhyw ganllawiau, egwyddorion neu waith ymchwil perthnasol ac arbenigol sy'n berthnasol i staff nyrsio proffesiynol a safonau arfer gorau presennol.*”) yn ddigon clir.

3.36. Soniodd dau ymatebydd am bwysigrwydd hyfforddiant/datblygiad proffesiynol parhaus a gwybodaeth arbenigol am ddarparu cymysgedd priodol o sgiliau a chynllunio'n effeithiol ar gyfer olyniaeth, gydag un arall yn nodi y dylai'r adran camau rhesymol (sy'n dechrau ym mharagraff 13) gynnwys cyfeiriad at sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus.

3.37. Gwnaeth RCN Cymru amryw o sylwadau yn yr adran hon yn ymwneud â'r Ddeddf, ond nid y canllawiau statudol fel y cyfryw. Roedd y sylwadau'n sôn am y canlynol:

- Pwysigrwydd atebolrwydd a thryloywder wrth adrodd ar lefelau staff nyrsio ac argymhelliad y dylai hyn barhau i fod yn flaenoriaeth i weinyddiaeth nesaf Llywodraeth Cymru;
- Yr effaith oedi a gafodd y pandemig Covid19 ar y cyfnod ymgynghori a dyddiad dod i rym arfaethedig y rheoliadau. Maent yn “*credu'n gryf na ddylai etholiadau'r Senedd ac etholiad llywodraeth newydd darfu ar y dyddiad dod i rym (, ac)...na ddylid gohirio'r dyddiad ymhellach ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol.*”
- Annog Llywodraeth Cymru i gynyddu'r niferoedd comisiynu ar gyfer nyrsio plant cyn cofrestru er mwyn sicrhau y gellir cyflawni adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 a'i gweithredu'n llwyddiannus yn y lleoliad cleifion mewnol pediatrig, heb ddibynnu ar nyrsio asiantaeth.
- Yr angen am fwy o nyrsys ymgynghorol yng Nghymru, yn enwedig nyrsys plant ymgynghorol, addysg, nyrsys ysgol a nyrsys newyddenedigol.

3.38. Gwnaed y sylwadau canlynol gan ymatebwyr unigol:

- Dylai adran 25B fod yn gymwys i bob maes gofal yn unol â phwynt 3.17 uchod;
- Lle mae paragraff 7 yn nodi y *dylai'r* person dynodedig gael ei gofrestru gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a fyddai'r gair “*rhaid*” yn fwy priodol?

- Ym mharagraff 9, awgrymwyd “*canolbwyntio ar y person*” yn hytrach na “*canolbwyntio ar y claf*”;
- A ddylai paragraff 9 ailadrodd y dylai'r person dynodedig gael sicrwydd bod y fethodoleg driongli ragnodedig wedi'i defnyddio wrth gyfrifo lefelau staff nyrsio?
- Dylai paragraff 38 pwynt 3 - sy'n trafod yr angen i ystyried arferion diwylliannol a chrefyddol o fewn barn broffesiynol - gynnwys anghenion “*ysbrydol*”;
- Dylai paragraff 38 pwynt 11 - sy'n trafod y cynnig gweithredol o ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg - gynnwys y geiriau “*lle y bo'n bosibl*”;
- Ailadrodd y pwynt yn 3.6 uchod bod angen ystyried hawl plentyn i benderfynu ar ei lwybr gofal. Ymhelaethodd yr ymatebydd hwn ar y pwynt drwy gyfeirio at ganllawiau pontio a throsglwyddo drafft Llywodraeth Cymru (yn seiliedig ar ganllawiau NICE 2016) sy'n cefnogi'r honiad;
- Croesawodd Comisiynydd Plant Cymru yr estyniad i wardiau cleifion mewnol pediatriig, ac roedd hefyd yn croesawu'r gwaith ymgysylltu a wnaed â grwpiau cleifion ifanc yn ystod y gwaith diwygio;
- Ailadrodd pwynt 3.13 uchod;
- Lle mae paragraff 13 yn sôn am “*staff parhaol*”, dylid ei newid i “*staff ar gontractau parhaol*”;
- Pryder bod yr heriau presennol sy'n wynebu byrddau iechyd wrth weithredu'r Ddeddf mewn wardiau meddygol a llawfeddygol i oedolion yn gwneud yr amserlen estynedig ar gyfer pediatrieg yn anymarferol ac y dylid gohirio'r dyddiad dod i rym;
- Ailadrodd pwynt 3.5 uchod.
- Defnyddiodd aelod o'r cyhoedd yr adran i godi pryderon y bydd y canllawiau “*...yn cynyddu'r annhegwch...*” mewn perthynas â gofal mewn lleoliadau gwledig o gymharu â lleoliadau trefol.

C5 a C6 Y Gymraeg

- 3.39. Gofynnodd cwestiynau 5 a 6: sut yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'r canllawiau'n effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a sut y gellid newid y canllawiau i gael effaith gadarnhaol neu beidio â chael effaith andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.40. Roedd chwech o'r 15 ymatebydd naill ai heb ateb y cwestiwn neu'n dweud bod y canllawiau statudol “*o fewn y canllawiau presennol ar gyfer gweithredu'r Gymraeg*”.
- 3.41. Nododd chwech o'r ymatebwyr yn benodol, gan y bydd y canllawiau statudol ar gael yn ddwyieithog, nad oedd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg a/neu fod cyfle i'r Gymraeg gael ei defnyddio yn y gweithle.

3.42. Defnyddiodd pedwar ymatebydd yr adran hon i godi pryderon am y ffaith nad oedd digon o staff sy'n siarad Cymraeg i sicrhau bod un ar gael ar bob shift, a bod recriwtio i ddatrys hyn yn fater a oedd yn parhau. At hynny, ychwanegodd y Coleg Nyrsio Brenhinol y dylai Llywodraeth Cymru wneud ymrwymiad hirdymor i ehangu'r gweithlu nyrsio sy'n gallu siarad Cymraeg.

3.43. Gwnaed y sylwadau canlynol gan ymatebwyr unigol:

- Cydnabod y canllawiau statudol sy'n cyfeirio at Safonau'r Gymraeg ond heb greu unrhyw gyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- A oes angen rhoi cnawd ar ofynion Mwy na Geiriau o fewn y canllawiau statudol hyn?
- Gallai lefelau staffio uwch wneud cyfraniad cadarnhaol at gefnogi'r nod o sicrhau bod o leiaf un nyrs sy'n siarad Cymraeg ar gael ar bob shift;
- Croesawyd cynnwys cyfeiriad at Safonau'r Gymraeg a Mwy na Geiriau gan un ymatebydd – er, er lles tryloywder, nid ychwanegiadau a wnaed yn y diwygiadau diweddar oedd y rhain, ond rhai a ymddangosodd yn y fersiwn wreiddiol o'r canllawiau statudol;
- Mae diwygio'r canllawiau statudol yn gyfle i gynnwys mwy o gyfeiriadau at Safonau'r Gymraeg drwyddi draw, ac ychwanegu darpariaeth Gymraeg o dan yr adran gofynion rhesymol, yn hytrach na barn broffesiynol yn unig lle mae'n cael ei grybwyll ar hyn o bryd;
- Dywedodd un aelod o'r cyhoedd fod angen i'r canllawiau ystyried anghenion y rhai *nad ydynt* yn siarad Cymraeg ac sy'n diwallu anghenion pob unigolyn.

C7 Yr effaith ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig

3.44. Roedd cwestiwn olaf yr ymgynghoriad yn gofyn am farn yr ymatebwyr ar yr effaith y byddai'r canllawiau statudol yn ei chael ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol.

3.45. Roedd pum ymatebydd o'r farn nad oedd y canllawiau statudol yn cael unrhyw effaith negyddol neu nad oeddent yn newid manylebau ac arferion presennol o ran nodweddion gwarchodedig.

3.46. Tynnodd pedwar ymatebydd sylw at y ffaith y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar nodwedd warchodedig oedran, gan nad oedd unrhyw leoliadau pediatriig wedi'u cynnwys o'r blaen o dan adran 25B o'r Ddeddf.

3.47. Ni wnaeth dau ymatebydd ateb y cwestiwn hwn.

3.48. Nododd dau ymatebydd y gallai fod effaith negyddol ar bobl ifanc 16 ac 17 oed a oedd yn derbyn gofal ar ward oedolion pe na bai'r dewis a fynegwyd ganddynt i aros ar ward bediatrig wedi'i gynnwys yn y broses benderfynu wrth bennu eu llwybr gofal. Mae hyn yn ailadrodd y mater a godwyd ym mhwynt 3.6 uchod.

- 3.49. Soniodd dau ymatebydd am yr angen i sicrhau bod lefelau staff nyrsio yn diwallu anghenion cleifion ag anghenion ychwanegol megis anableddau dysgu (fel y soniwyd ym mharagraff 38 pwynt 10 o'r canllawiau statudol).
- 3.50. Ailadroddodd un ymatebydd (HDUHB) y mater a drafodwyd ym mhwynt 3.10 uchod – o berson ifanc sy'n derbyn gofal beichiogrwydd neu famolaeth mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai pediatrig.
- 3.51. Holodd un ymatebydd (PHW) a oedd angen bod yn fwy eglur ym mharagraff 20 ynglŷn â'r fformatau hygyrch a ddylai fod ar gael i gleifion pan ddaw'n fater o'u hysbysu am lefelau staff nyrsio – sef sain, braille, Iaith Arwyddion Prydain, Hawdd ei Ddeall a phrint bras.
- 3.52. Dywedodd un ymatebydd (aelod o'r cyhoedd) y byddai'r canllawiau'n cael effaith negyddol enfawr ar Sir Benfro gyfan pe baent yn cael eu defnyddio i atal yr uned gofal triniaethau dydd pediatrig rhag dychwelyd.

4. Y camau nesaf

- 4.1 Bydd y dadansoddiad o'r ymatebion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon yn llywio mân ddiwygiadau pellach i'r canllawiau statudol. Er na fydd modd ymgorffori pob barn, yn enwedig lle mae gwahaniaeth barn ymhlith ymatebwyr neu lle nad yw'r pwerau o dan y Ddeddf yn ein galluogi i ymgorffori'r diwygiadau a awgrymir, bydd y canllawiau'n adlewyrchu'r safbwyntiau a gynnigir gan yr ymgynghoriad lle bo hynny'n bosibl.
- 4.2 Cyhoeddir y canllawiau statudol yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru. Disgwylir i'r canllawiau hyn gael eu cyhoeddi yn ystod gwanwyn 2021, i'w defnyddio gan Grŵp Staff Nyrsio Cymru Gyfan i gynhyrchu canllawiau gweithredol cyfatebol ar gyfer y wardiau cleifion mewnol pediatrig.
- 4.3 Bydd unrhyw sylwadau ychwanegol a wnaed yn yr ymgynghoriad nad oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â'r canllawiau statudol diwygiedig yn cael eu casglu a'u rhannu â'r swyddogion/cyrff polisi perthnasol er mwyn iddynt gael eu trafod drwy'r sianeli priodol.
- 4.4 Disgwylir i *Reoliadau Lefelau Staff Nyrsio (Estyn Sefyllfaoedd) (Cymru) 2021* gael eu trafod yn y Senedd ar 23 Chwefror 2021. Y bwriad ar hyn o bryd yw i'r rheoliadau hynny ddod i rym ym mis Hydref 2021.